HSC(6) 27-23 PTN 13

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Gadeiryddion

Diolch ichi am eich llythyr. Mae'r newidiadau arfaethedig i Godau Ymarfer a rheoliadau, fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, yn gyfle i gryfhau gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan lawer o sefydliadau, ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, lleol, a chymunedol, rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith hwn, ac mae amseriad y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn caniatáu inni ystyried casgliadau hwnnw ochr yn ochr â'r ymatebion i'r dogfennau ymgynghori.

Hefyd, fel rhan o ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phlaid Cymru i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, sef gweithgarwch sy'n gydnaws ag Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Yn nes ymlaen eleni, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu cychwynnol. Bydd cwmpas y cynllun hwn yn ehangach na chwmpas Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, ac mae'n gyfle pellach i roi sylw i'r casgliadau yn adroddiadau'r gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried manylion eich llythyr, a byddaf yn gallu rhoi ymateb llawnach ar ôl i'r ymgynghoriad gau. Fodd bynnag, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am ystyried ac amlygu'r cyfleoedd a'r heriau sy'n codi wrth roi sylw i gasgliadau'r gwerthusiad.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.